CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**DATGANIAD O YMRWYMIAD I WEITHREDIADAU MOROL DIOGEL**

*"Er mwyn hwyluso gweithrediadau morol diogel, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn ymrwymo i sicrhau y darperir yr holl wybodaeth berthnasol i'w holl weithwyr a chontractwyr, defnyddwyr yr harbwr, budd-ddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd ei staff wedi'i hyfforddi'n drylwyr ac yn ymrwymo i gyflawni gofynion y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol.*

*Mae'r Cyngor yn croesawu diddordeb a chyfranogiad yr holl fudd-ddeiliaid mewn cynnal a gwella'r ymwybyddiaeth o ddiogelwch yn ei harbwr. At hynny, sefydlwyd trefn o gyfathrebu â'r budd-ddeiliaid perthnasol a chynhelir cyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Conwy bob tri mis er mwyn sicrhau y rhennir unrhyw wybodaeth berthnasol.*

*Rwy'n cydnabod fod gweithrediadau morol diogel yn dibynnu ar bobl gymwys a diwylliant o reoli diogelwch yn weithredol. Mae pawb sy'n gweithio yn yr harbwr neu'n ei ddefnyddio'n gyfrifol am gyfrannu at ddiogelwch yr harbwr.*

*Yr wyf i a'm cyflogwr, y Cyngor, yn rhannu'r uchelgais i ddal ati'n ddi-baid i fonitro safon yr ymwybyddiaeth o ddiogelwch gydol Harbwr Conwy, gwella hynny a phennu safonau gofynnol newydd. Mae gan holl aelodau o staff Awdurdod yr Harbwr, fel unigolion a gyda'i gilydd, ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau y cyflawnir hynny."*

*Geraint Edwards, Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mehefin 2025.*